

44. TAITH AR GWCH
(Iesu'n gostegu'r storm)

Dychmygwch eich bod yn edrych ar lyn sydd mor hir nes mae'n amhosibl gweld o un pen i'r llall, mor llydan nes cymer rai oriau i hwylio ar ei draws ac mor ddyfn hyd yn oed pe bai dau eliffant, dau reinosorws a jiráff yn sefyll ar waelod y llyn un ar ben y llall, fyddech chi'n dal yn methu gweld gwddf hir y jiráff yn codi uwch yr wyneb. Mae'r llyn hwn yn llawn o bysgod. (Mae'n dda o beth mai dim ond yn ein dychymyg y mae'r anifeiliaid neu byddai'n beryg i'r pysgod farw o sioc.) Fel arfer mae awel ysgafn yn chwythu ar wyneb y dŵr.* Ac mae'r tonnau'n ysgubo'n dawel tua'r lan.* Ond nawr ac yn y man mae gwynt sydyn yn chwythu i lawr o'r bryniau, * gan chwipio'r tonnau'n gynddeiriog. Am ychydig oriau bydd storm yn rhuo. * Ac yna bydd popeth yn tawelu unwaith eto.

Mae'r llyn yn cael ei adnabod fel Môr Galilea ac mae'n enwog oherwydd i Iesu bregethu a dysgu llawer ar ei lannau. Ar lan y llyn mae tref Capernaum a phan na fydd Iesu'n teithio'r wlad, yno y bydd yn treulio ei amser. Ac mae nifer o ddisgyblion Iesu'n bysgotwyr. Felly gadewch i ni ddychmygu Iesu'n rhan o'r darlun hwn. Ceisiwch ei weld yn sefyll mewn cwch ychydig fetrau oddi wrth y lan yn dysgu tyrfa anferth sydd wedi ymgynnull i wrando

arno. Mae'n hwyr ar y prynhawn ac yntau wedi bod yn siarad â hwy ers oriau, gan adrodd llawer o ddamhegion iddynt. (Straeon ac iddynt neges ysbrydol yw damhegion.) Fel arfer mae nifer o'r gwrandawyr yn ansicr ynglŷn ag ystyr y damhegion a neb ohonynt ar ryw frys mawr i fynd adref. Maent yn ddigon hapus i loetran o gwmpas gan fwynhau'r diwrnod; mae hynny'n braf iawn iddynt hwy ond mae'n galetach ar y siaradwr. Erbyn hyn mae Iesu wedi blino'n lân.

Felly dyma benderfynu beth i'w wneud. Mae'n gwneud i'w ddisgyblion wthio'r cwch ychydig yn bellach oddi wrth y lan. Yna, dywed wrthynt am ddringo'n ôl ar fwrdd y cwch, codi'r hwyl ac i ffwrdd â hwy gan anelu am ochr draw'r llyn.

'Argol! Dwi'n falch o weld cefn y criw yna,' medd Pedr ag ochenaid o ryddhad wrth i'r dyrfa ddiflannu o'r golwg yn y pellter.

'Ie wir. Roedd yna filoedd ohonyn nhw,' cytunodd ei gyfeillion.

Maent yn teimlo'n bur hunanfodlon. Mae'n grêt cael hwylio i ffwrdd gyda Iesu. Mae pob un yn edrych ymlaen am sesiwn breifat gyda Iesu pryd y cânt glywed union ystyr y damhegion a glywsant.

'Wyddoch chi beth, weithiau dwi'n methu deall pam fod y Meistr yn gwastraffu cymaint o'i egni ar ddysgu'r torfeydd. Does gan y rhan fwyaf ohonynt ddim clem am beth mae o'n siarad,' meddai Pedr.

Amneidiodd Andreas ei ben. 'Pan ddywedodd o heddiw fod teyrnas nef yn debyg i hedyn mwstard, dwi'n siŵr fod rhai ohonyn nhw wedi meddwl mai'r ffordd i agosáu at Dduw oedd trwy blannu hedyn yn eu gerddi!'

'Ond, mewn gwirionedd, yr hyn a olygai oedd y byddai teyrnas fawr yn codi o'r hedyn bach yn y dyfodol,' ychwanegodd Mathew.

Yna mae pawb yn troi eu pennau i weld a yw eu clyfrwch wedi gwneud argraff ar Iesu.

Ond mae Iesu wedi blino'n lân ar ôl yr holl ddysgu a phregethu ac ynghwsg ar glustog yng nghefn y cwch.

'Shhh. Cadwch eich lleisiau i lawr,' rhybuddiodd Pedr. 'Does arnon ni ddim eisiau ei ddeffro.'

Yn y cyfamser mae'r awel yn cryfhau.*

Mae'r tonnau sy'n amgylchynu'r cwch yn codi'n uwch. *

Ac mae'r awyr uwchlaw wedi duo.

'Dwi ddim yn hoffi hyn! Dwi'n teimlo'n sâl!' meddai Tomos.

Mae rhai o'r disgyblion eraill yn ofnus hefyd ond mae'r pysgotwyr yn eu plith yn falch o'r cyfle i ddangos pa mor fedrus ydynt. Wrth i'r llyn ddechrau corddi maent yn gostwng yr hwyliau ac yn bachu'r rhwyfau.

'Gafaelwch yn dynn yn yr ochrau. 'Den ni am gael siwrnai galed,' rhybuddiodd Pedr.

Gyda hynny mae'r cwch bach yn cael ei ddal mewn storm ddychrynllyd. Mae'r gwynt yn sgrechian i lawr o'r bryniau.* Ffrwydra'r tonnau o'u hamgylch.* Un munud mae'r cwch yn gwegian yn beryglus ar fynydd o ddŵr, a'r munud nesaf yn plymio i lawr yr ochr arall. Mae Pedr wedi gweld sawl storm ar y llyn yn ei ddydd, ond hon yw'r waethaf erioed. Caiff y cwch ei fwrw o gwmpas fel darn o froc môr. Gall suddo unrhyw funud . . .

'Wel, am be 'dech chi'n aros? Deffrwch Iesu!' bloeddiodd Pedr.

'Deffra, Feistr!' llefa'r disgyblion. 'Wyt ti'n malio dim ein bod ni'n boddi?'

Iesu druan! Byth yn cael munud o heddwch. Gynted ag y mae'n cael llonydd mae rhywbeth arall yn sicr o ddod i'w boeni. Yma caiff ei ddeffro o'i gwsg braf gan haid o ddisgyblion ofnus. Beth ar y ddaear yw'r holl stŵr? Mae'n codi ar ei draed. Am ennyd mae'n gwrando ar hyrddio, gwichian, curo a sgrechian deuawd y gwynt a'r tonnau.* Yna mae'n codi ei law. 'Bydd ddistaw! Bydd lonydd!' yw ei orchymyn.

Ar unwaith mae'r gwynt yn tawelu. *

Ac mae'r tonnau'n llyfn unwaith eto. *

Ac mae popeth yn heddychlon.

Ew! Mae'r disgyblion wedi eu syfrdanu. Bron iawn fod gweld Iesu'n tawelu'r storm yn fwy o ddychryn na'r storm ei hunan. O leiaf mae stormydd yn naturiol. Ond dyn yn dweud wrth y gwynt a'r tonnau beth i'w wneud – aruthrol!

Maent yn ofni edrych ar wyneb Iesu hyd yn oed.

'Beth sydd o'i le nawr? Pam ydech chi'n ofni cymaint? Ble mae'ch ffydd chi?' hola'n dyner.

Maent yn gwybod ei fod yn gofyn iddynt gredu rhywbeth.

Gadawsant y lan yn hunanfodlon ac yn falch o gael cadw cwmni i'w hathro medrus a deallus. Ond nawr, wedi'r perfformiad *yna,* does ganddynt ddim syniad beth i'w feddwl. Felly, maent yn crafu eu pennau, gan ymdrechu i ddeall yr hyn sydd newydd ddigwydd. Pwy *yw'r* dyn hwn? Pa fath o ddyn all reoli'r gwynt a'r tonnau?

Nid yw Iesu'n manteiso ar y sefyllfa i wneud unrhyw honiadau dramatig. Nid Duw ydyw sy'n gwthio ei gred i lawr corn gwddf neb. Mae o yno. Ac mae'n eu caru. Ac mae'n barod i fod yn amyneddgar.

Felly mae'n eistedd yn ôl ac yn mwynhau gweddill y trip.

HYD: Stori sylfaenol: 5–6 munud. (Bydd angen caniatáu rhagor o amser ar gyfer effeithiau sŵn.)

NEGES: Ar y dechrau nid oedd y disgyblion yn sylweddoli pwy oedd Iesu. Mae Iesu'n dal i aros i bobl sylweddoli pwy yw heddiw.

DARLLEN: Seiliwyd y stori hon ar Marc 4: 35–41.

ADRODD Y STORI:

Gallwch rannu eich cynulleidfa yn 'donnau' a 'gwynt'. Defnyddiwch gardiau ciw ar gyfer yr effeithiau sŵn angenrheidiol, h.y. TAWEL; CYMEDROL; UCHEL; TAWEL OND CHWYRN. Cofiwch ymarfer gan ddefnyddio'r cardiau. Yna adroddwch y stori gan wneud defnydd o'r lefelau addas o sŵn gwynt a thonnau lle nodir*.

(Sylwer: Golyga TAWEL OND CHWYRN gyfleu sŵn stormus heb foddi llais y storïwr.)